OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1992

# Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2015

## RHAN 9

## Cronfa ddata ganolog

### Stocrestr o anifeiliaid

**26.** At ddibenion Erthygl 7(2) o Reoliad y Cyngor, rhaid i geidwad sy'n cadw anifeiliaid yn barhaol wneud stocrestr flynyddol o nifer yr anifeiliaid ar ei ddaliad o fewn 30 diwrnod ar ôl dyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru.

**27.** Cyflawnir trosedd os yw ceidwad yn methu â chydymffurfio ag erthygl 26.

### Cyflenwi gwybodaeth

**28.**—(1) Ar ôl cael hysbysiad o dan Erthygl 8(2) o Reoliad y Cyngor fod person wedi dod yn geidwad mewn daliad, rhaid i Weinidogion Cymru, yn ddarostyngedig i baragraff (2), ddyrannu nod diadell mewn cysylltiad â phob diadell o ddefaid ar y daliad a nod geifre mewn cysylltiad â phob geifre o eifr ar y daliad.

(2) Os lladd-dy neu farchnad yw'r daliad, nid oes rhaid i Weinidogion Cymru ddyrannu nod diadell neu nod geifre onid ydynt o'r farn y byddai'n briodol gwneud hynny.

(3) Rhaid i'r ceidwad hysbysu Gweinidogion Cymru mewn ysgrifen ynghylch unrhyw newid yn yr wybodaeth a bennir yn Erthygl 8(2)(a) o Reoliad y Cyngor o fewn 30 diwrnod ar ôl newid o'r fath.

(4) O fewn 30 diwrnod ar ôl dod yn geidwad, rhaid i'r person hwnnw hysbysu Gweinidogion Cymru mewn ysgrifen ynghylch y newid hwnnw.

(5) Cyflawnir trosedd os yw ceidwad yn methu â chydymffurfio â pharagraffau (3) neu (4).